## Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm
### Y Cyfnod Sylfaen

| Elfennau | Agweddau | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys llyfrau<br>• adnabod geiriau cyfarwydd fel ei enw ei hun a phrint yn yr amgylchedd fel logos<br>• dehongli ystyr drwy luniau mewn llyfrau, gan ychwanegu manylion wrth esbonio<br>• adnabod lluniau ar sgrin a dehongli eu hystyr | • dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau<br>• adnabod bod geiriau'n cael eu ffurfio o ffonemau (seiniau) a bod ffonemau'n cael eu cynrychioli gan graffemau (llythrennau ysgrifenedig):<br>– cyfuno cyfuniadau o lythrennau<br>– segmentu cyfuniadau o lythrennau<br>• darllen geiriau syml megis geiriau cytsain-llafariad-cytsain<br>• darllen penawdau a thestunau syml gan adnabod geiriau aml eu defnydd<br>• dangos ymwybyddiaeth o'r atalnod llawn wrth ddarllen<br>• dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng storïau a thestunau gwybodaeth<br>• deall ystyr nodweddion gweledol y testun, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau*<br>• adnabod geiriau a lluniau ar sgrin a deall eu hystyr | • dewis deunyddiau darllen ac esbonio ystyr testun a pham maent yn ei hoffi<br>• defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol:<br>– strategaethau ffonig i ddatgodio geiriau<br>– adnabod geiriau aml eu defnydd<br>– cliwiau'r cyd-destun, *e.e. gwybodaeth flaenorol*<br>– cliwiau graffig a chystrawennol<br>– hunan gywiro gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen<br>• darllen testunau addas yn gywir ac yn rhugl<br>• darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnod llawn a'r gofynnod<br>• darllen ar goedd â mynegiant, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ebychnod a dyfynodau<br>• adnabod nodweddion testun syml megis teitlau a lluniau er mwyn esbonio'r testun<br>• chwilio am gliwiau yn y testun er mwyn deall gwybodaeth<br>• deall ystyr nodweddion gweledol a'u cysylltiad â'r testun ysgrifenedig, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau*<br>• adnabod geiriau a lluniau ar sgrin sy'n gysylltiedig â phwnc | • dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau dros eu dewisiadau<br>• defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol ar gyfer ystod ehangach o destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd:<br>– strategaethau ffonig<br>– adnabod geiriau aml eu defnydd<br>– cliwiau'r cyd-destun, *e.e. gwybodaeth flaenorol*<br>– cliwiau graffig a syntactig<br>– hunan-gywiro, gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen<br>• darllen ystod ehangach o destunau addas yn fwyfwy cywir a rhugl<br>• darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnodi, gan gynnwys atalnod llawn, gofynnod, ebychnod a dyfynodau, gan amrywio goslef, llais a chyflymder<br>• adnabod a defnyddio nodweddion testun, *e.e. teitlau, penawdau a lluniau,* i ganfod a deall gwybodaeth benodol<br>• chwilio am eiriau allweddol i ganfod am beth mae'r testun yn sôn<br>• defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr, *e.e. lluniau, siartiau a'r cynllun*<br>• adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth ar sgrin, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | • cofio manylion stori neu destun drwy ateb cwestiynau penagored neu ddefnyddio lluniau i'w helpu<br>• dechrau gwneud cysylltiadau â'u profiadau eu hunain wrth wrando ar lyfrau/testunau neu wrth edrych arnynt | • ail-ddweud storïau cyfarwydd mewn ffordd syml<br>• adnabod gwybodaeth o destun gan ddefnyddio nodweddion gweledol a geiriau<br>• perthnasu gwybodaeth a syniadau o destun gyda phrofiad personol | • ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir<br>• codi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gwrthrych testun<br>• dwyn i gof fanylion o destunau gwybodaeth<br>• defnyddio profiad personol er mwyn gallu deall testunau'n well | • dwyn i gof ac ail-ddweud naratifau a gwybodaeth o destunau gan gynnwys rhai manylion<br>• codi gwybodaeth o destun yn gywir a'i didoli'n gategorïau neu o dan benawdau<br>• esbonio manylion perthnasol o destunau<br>• defnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i ategu dealltwriaeth o destunau |
| | **Ymateb a dadansoddi** | • dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys<br>• dilyn llyfrau lluniau a thestunau a ddarllenir iddynt ac ymateb yn briodol. | • dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill ac ymateb i'w cynnwys<br>• dilyn testunau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymateb yn briodol. | • mynegi barn am wybodaeth yn y testun<br>• archwilio iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau<br>• gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth arall am y pwnc | • mynegi barn am wybodaeth gan ddefnyddio manylion o'r testun<br>• dangos dealltwriaeth a mynegi barn am iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau<br>• gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am y pwnc. |

© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

## Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm
### Cyfnod Allweddol 2

| | | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun<br>• darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol gan ganolbwyntio<br>• darllen ar goedd gan ddefnyddio atalnodi i helpu'r mynegiant<br>• cip ddarllen (sgimio) i gael trosolwg ar destun, *e.e. pwnc, pwrpas*<br>• chwilio am wybodaeth benodol mewn testunau gan ddefnyddio cynnwys, mynegeion, geirfâu, geiriaduron<br>• defnyddio cliwiau gweledol, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau,* er mwyn gwella dealltwriaeth<br>• adnabod dibenion gwahanol testunau, *e.e. rhoi gwybodaeth, cyfarwyddo, esbonio*<br>• adnabod sut mae testunau'n cael eu trefnu, *e.e. rhestri, pwyntiau â rhifau, diagramau â saethau, tablau a phwyntiau bwled*<br>• dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin, *e.e. barrau offer, barrau ochr, penawdau, saethau* | • defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun<br>• darllen testunau, gan gynnwys testunau heb fawr o gliwiau gweledol, yn annibynnol, gan ganolbwyntio<br>• defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall ystyr<br>• cip ddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn pennod<br>• llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodweddion mewn testunau, *e.e. teitlau, darluniau, geiriau allweddol*<br>• adnabod sut mae testunau'n gwahaniaethu yn ôl eu pwrpas, eu strwythur a'u cynllun<br>• dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe, gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o chwilio ac asesu pa ffyrdd yw'r rhai mwyaf effeithlon | • defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun<br>• darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson<br>• adnabod sut mae atalnodi'n perthyn i gystrawen brawddeg a sut mae ystyr yn cael ei lunio mewn brawddegau cymhleth<br>• defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen (sgimio), *e.e. dod o hyd i'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol, y byrdwn, y prif syniadau, themâu*<br>• llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol, *e.e. is-benawdau, diagramau*<br>• adnabod nodweddion testunau, *e.e. cyflwyniad i bwnc, dilyniant, darluniau, i ba raddau y mae'n ffurfiol*<br>• defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt ar sgrin ac ar bapur, gan ddethol a llawrlwytho yn ôl yr angen | • defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun<br>• darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau cyson<br>• deall sut gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg, *e.e. Ces i gacen(,) siocled a chaws i de*<br>• defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth, *e.e. cip ddarllen (sgimio) am gynnwys bras, llithr ddarllen (sganio) am fanylion*<br>• darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol<br>• chwilio ar y rhyngrwyd yn ofalus gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | • nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun, e.e. *drwy uwcholeuo, gan ddefnyddio geiriau allweddol y testun*<br>• dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant, *e.e. achos ac effaith*<br>• cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol | • nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau<br>• dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth, *e.e. dilyniant, pwysigrwydd*<br>• archwilio gwybodaeth a syniadau'r tu hwnt i'w profiad personol | • dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau, *e.e. map meddwl gan osod syniadau yn nhrefn pwysigrwydd, siart lif sy'n nodi proses*<br>• dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant, *e.e. beth sy'n digwydd nesaf?, pam gwnaeth hi/ef hynny?*<br>• adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt | • dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un pwnc<br>• dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, *e.e. safbwyntiau neu agweddau'r awdur*<br>• adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt i ddatblygu dealltwriaeth bellach |
| | **Ymateb a dadansoddi** | • defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu<br>• gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddarllen a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod a'i gredu am y pwnc. | • dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau<br>• deall sut y gall rhywbeth gael ei gynrychioli ar ffurfiau gwahanol, *e.e. delwedd symudol, aml-foddol a phrint*. | • cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol<br>• dehongli'r hyn y mae awdur yn ei feddwl am y pwnc, *e.e. edmygu person hanesyddol, diddordeb yn unig mewn ffeithiau*<br>• pwyso a mesur a yw'r cynnwys yn ddibynadwy, *e.e. ydy ffotograffau'n fwy dibynadwy na lluniadau?* | • cydgasglu a gwneud cysylltiadau, *e.e. blaenoriaethu, categoreiddio,* rhwng gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol<br>• gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn<br>• ystyried safbwyntiau awduron gwahanol ar yr un pwnc, *e.e. mae llygod mawr yn ddiddorol neu'n broblem*<br>• ystyried a yw testun yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth a syniadau. |

© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

## Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm
### Cyfnod Allweddol 3

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • defnyddio'u gwybodaeth am y canlynol:<br>– tarddiadau a theuluoedd geiriau<br>– cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl<br>• asesu ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ar dudalennau'r rhyngrwyd gan ystyried o ble mae'n dod a gwirio pa mor gywir yw hi | • defnyddio'u gwybodaeth am y canlynol:<br>– tarddiadau a theuluoedd geiriau<br>– cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl<br>• dewis a dethol pa ffynonellau ar y rhyngrwyd i'w llawrlwytho neu i'w dyfynnu, yn ôl eu dibynadwyedd a'u perthnasedd | • defnyddio'u gwybodaeth am y canlynol:<br>– tarddiadau a theuluoedd geiriau<br>– cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl<br>• defnyddio'r rhyngrwyd yn llawn gan ddethol yn ofalus er mwyn diweddaru, ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | • canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt<br>• dewis y prif bwyntiau mewn testunau ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i'w hategu<br>• darllen rhwng y llinellau gan ddehongli a dod i gasgliad<br>• adnabod sut trefnir testun, *e.e. yn rhesymegol neu'n thematig*, er mwyn gwneud i'r cynnwys fod yn eglur ac yn llawn gwybodaeth<br>• dilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil | • canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt<br>• dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a'u defnyddio'n ddethol<br>• defnyddio, casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr<br>• gwneud cysylltiadau rhwng testunau, eu themâu a'u cynnwys ffeithiol ac adnabod unrhyw bwyntiau sy'n cytuno â'i gilydd neu sy'n gwrth-ddweud ei gilydd<br>• darllen o amgylch pwnc sydd o ddiddordeb iddynt a datblygu dealltwriaeth ehangach drwy ymchwilio | • canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt<br>• chwilio am ddeunyddiau ychwanegol mewn testunau a'u defnyddio i ehangu dealltwriaeth<br>• dod i ddeall testunau'n llawn gan ddefnyddio technegau casglu, dehongli a dadansoddi<br>• cymharu a chyferbynnu themâu a materion ar draws ystod o destunau<br>• ymchwilio i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth lawn o bwnc |
| | **Ymateb a dadansoddi** | • cydgasglu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol, *e.e. dwyn ynghyd a chrynhoi ffeithiau a syniadau am bwnc*, o destunau gwahanol<br>• gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn gan ddefnyddio tystiolaeth i ddangos y gwahaniaethau<br>• cymharu safbwyntiau ar yr un pwnc a phwyso a mesur p'un yw'r mwyaf dilys<br>• gwerthuso cynnwys, cyflwyniad ac apêl testun. | • crynhoi a chyfuno gwybodaeth, *e.e. cyfrif cryno o bwnc eang*, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol<br>• gwahaniaethu rhwng rhagfarn a barn wrthrychol gan esbonio sut maent yn wahanol<br>• adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud<br>• gwerthuso testunau yn ôl eu hansawdd a'u lefel diddordeb. | • cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn hybu dealltwriaeth ddofn, *e.e. o achosion, canlyniadau, patrymau*, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol<br>• gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadl<br>• adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a'u cloriannu<br>• gwerthuso pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw testunau. |

© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

| Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm<br>Cyfnod Allweddol 4 | | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Ymestyn |
|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • defnyddio eu gwybodaeth am:<br>– darddiadau a theuluoedd geiriau<br>– cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl, gan ddethol a rhoi sylwadau ar y prif sylwadau a themâu<br>• defnyddio'r rhyngrwyd, gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy a phwysig ydynt | • defnyddio eu gwybodaeth am:<br>– darddiadau a theuluoedd geiriau<br>– cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl, gan ddethol a rhoi sylwadau aeddfed ar y prif sylwadau a themâu<br>• defnyddio'r rhyngrwyd, gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy, pwysig a chywir ydynt | • gwerthuso arddull awduron a'u defnydd o ffurf, strwythur ac iaith, gan ymateb yn gyson i destunau yn hyderus<br>• ymateb yn ystyrlon ac yn feirniadol gan ddangos gwreiddioldeb wrth ddadansoddi a dehongli<br>• dangos bod ganddynt drosolwg dda o destunau ac ymateb yn hyderus ac yn graff i brif syniadau a themâu<br>• cymharu a thrawsgyfeirio'n hyderus ac â chrebwyll. |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | | | |
| | **Ymateb a dadansoddi** | • cymharu a chyferbynnu themâu a materion ar draws ystod o destunau ac yn gwneud cysylltiadau rhwng testunau<br>• ymchwilio'n annibynnol i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth lawn o faterion anghyfarwydd<br>• cyfosod a dadansoddi gwybodaeth er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o ffynonellau sydd o bosibl yn cyflwyno safbwyntiau cyferbyniol<br>• deall y gwahaniaeth rhwng ffeithiau/tystiolaeth a thuedd/dadl ac yn gallu nodi'r gwahaniaeth hwnnw trwy roi sylw ar bwyntiau amlwg a chasgliadau<br>• rhoi sylw ar ddehongliadau gwahanol o'r materion a'r syniadau, gan ddefnyddio'r testun i gefnogi'u barn<br>• gwerthuso pwrpas, effaith a dibynadwyedd testunau. | • ymchwilio'n annibynnol i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth lawn o faterion cymhleth ac anghyfarwydd<br>• cyfosod a dadansoddi gwybodaeth er mwyn cael dealltwriaeth eang a chytbwys o ffynonellau sydd o bosibl yn cyflwyno safbwyntiau cyferbyniol<br>• deall sut y gall testun gael ei ddehongli'n wahanol, gan nodi'r gwahaniaeth rhwng ffeithiau/tystiolaeth a thuedd/dadl ac ymchwilio'n fanwl i hyn<br>• ymchwilio'n fanwl i ddehongliadau gwahanol o'r materion a'r syniadau, gan ddefnyddio'r testun i gefnogi'u barn<br>• gwerthuso pwrpas, effaith a dibynadwyedd testunau yn hyderus. | |

© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273